Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Grŵp Chwarae Cyn Ysgol Carmel**

**Ysgol Bro Carmel**

**Carmel Road, Carmel**

**Treffynnon**

**CH8 8NU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/12/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Grŵp Chwarae Cyn Ysgol Carmel

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Carmel Pre School Playgroup and Toddler Group |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Manual Insert]<br>Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers ailgofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

erfynol heb ei
yhoeddi

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Gwrandewir ar y plant a chaiff yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud ei barchu. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ac maent yn hapus. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn cyd-chwarae'n hyderus. Maent yn dysgu sut i ryngweithio'n dda, yn dilyn rheolau syml ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Mae'r plant yn dechrau gwneud pethau drostynt eu hunain a chânt gyfleoedd da i ddatblygu sgiliau gwahanol.

Mae'r staff yn deall eu rôl o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn sicrhau bod y plant yn hapus ac yn hyrwyddo ymddygiad da. Mae'r staff yn cynllunio gwahanol weithgareddau; mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r plant ac maent yn eu hadnabod yn dda. Mae'r staff yn trin y plant â pharch ac yn siarad â nhw mewn ffordd garedig a thawel ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt pan fydd ei angen arnynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan y plant amgylchedd addas o'u hamgylch ac amrywiaeth dda o adnoddau a chyfarpar. Mae'r rhain o ansawdd da, yn naturiol ac wedi'u hailgylchu. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd iddynt weithio gyda deunyddiau gwahanol ac yn sicrhau y gall y plant wneud penderfyniadau am le y maent am chwarae a gyda pha deganau.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau ar waith y mae pob aelod o'r staff yn eu gweithredu'n dda. Mae’r rhain yn cadw’r plant yn ddiogel. Mae'r staff yn deall gweithdrefnau diogelwch y lleoliad ac maent yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Maent yn ymroddedig i wella arferion. Mae cydberthynas dda rhwng y bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r rhieni, sydd o fudd i'r plant. Maent yn gwneud gwelliannau i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion y plant a'u teuluoedd. Mae'r lleoliad wedi meithrin partneriaethau da â'r ysgol y mae'n rhannu neuadd ac ardaloedd awyr agored â hi.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn hoffi gwneud penderfyniadau a gallant ddewis sut y maent yn treulio eu hamser. Maent yn symud o amgylch y gweithgareddau sydd ar gael dan do ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn hapus i sgwrsio â'r staff a'u cynnwys yn eu chwarae. Mae'r plant yn hyderus ac yn dewis yr eitemau y maent am chwarae â nhw. Mae'r plant yn penderfynu ble y maent am eistedd i gael eu byrbryd ac yn dewis beth i'w fwyta. Mae'r staff yn parchu hyn, gan ddangos bod y plant yn gwneud dewisiadau a'u bod yn gwrando arnynt.

Mae'r plant yn hyderus a daethant atom i sgwrsio ac i ddangos pa mor gyflym a medrus y gallant fynd ar eu beiciau. Roeddent am gael ras, gan ein hannog i'w dechrau iddynt. Mae ganddynt ymdeimlad o sicrwydd gan eu bod yn gyfarwydd â threfn ddyddiol y lleoliad. Maent yn dod yn gyfarwydd â'r gweithgareddau'n gyflym ac yn teimlo'n gyfforddus wrth ofyn i'r staff am gysur. Maent yn sgwrsio â'i gilydd yn ystod amser chwarae ac wrth iddynt greu calendrau, gan ddangos i'w gilydd yr hyn y maent yn ei wneud.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ar gyfer eu hoedran, er enghraifft maent yn ciwio'n dda un ar ôl y llall pan fo'n amser mynd i'r ystafell ymolchi i olchi eu dwylo cyn bwyta eu byrbryd, neu wrth aros ger y drws am eu rhieni. Maent yn garedig tuag at ei gilydd gan rannu adnoddau, fel blociau, â'u ffrindiau. Maent wedi meithrin cyfeillgarwch ac yn chwarae'n dda â'i gilydd, gan gymryd eu tro, er enghraifft wrth wthio ei gilydd mewn cerbydau a beiciau eistedd a reidio. Mae'r plant yn gwrando ar y staff a phan ofynnir iddynt, maent yn helpu i roi'r teganau i gadw yn hapus. Prin iawn y mae'r plant yn mynd i deimlo'n ofidus, ac mae'r plant eraill yn mynd i'r afael â hyn yn gyflym drwy ymyrryd i geisio rhoi help llaw.

Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda ar dasgau, megis crefftau'r Nadolig, ac yn dangos diddordeb yn yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn mwynhau chwarae corfforol ac yn rhannu gemau pêl. Dangosodd y plant ffigurynnau stori'r geni, gan ddweud wrthym yn falch beth yw rôl pob un yn y stori. Gwnaethant ychwanegu anturiaethau at y stori drwy eu syniadau eu hunain ac roeddent yn fodlon ar y canlyniad wrth i'r holl ffigurynnau gael eu gosod yn ddiogel yn ôl yn y stabl. Maent yn awyddus i wylio eu ffrindiau ac yn edmygu'r hyn y maent yn ei wneud, gan ymuno â nhw yn aml i wneud newidiadau neu awgrymiadau i gynyddu sefydlogrwydd y blociau wrth wneud garej.

Mae'r plant yn meithrin amrywiaeth o sgiliau ac maent yn datblygu sgiliau iaith drwy sgwrsio â'r staff ac ymuno â straeon. Maent yn hoffi gwneud pethau drostynt eu hunain ac yn caee eu cefnogi gan y staff, er enghraifft i fynd i'r ystafell ymolchi. Cânt eu hannog i benderfynu drostynt eu hunain pa weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt a sut i gwblhau

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

tasgau. Maent yn dewis o blith yr adnoddau sydd ar gael, a gaiff eu storio o fewn cyrraedd iddynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Datblygiad Da

Mae'r staff yn deall eu rolau ac yn dilyn y gweithdrefnau cywir er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu ac wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Maent yn gwybod at bwy y dylent fynd os bydd ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau, a chaiff y rhan fwyaf o'r cofnodion eu llofnodi gan y rhieni neu cânt wybod am ddamweiniau neu ddigwyddiadau drwy alwad ffôn. Mae'r staff hefyd yn sicrhau y caiff ymarferion tân eu cynnal er mwyn i'r plant a'r staff wybod sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng. Mae'r staff yn hyrwyddo bwyta'n iach drwy ddarparu byrbrydau maethlon, megis ffrwythau gyda llaeth neu ddŵr i'w yfed. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo ac yn dilyn gweithdrefnau hylendid priodol er mwyn atal croesheintio. Ni welsom y plant yn chwarae yn yr awyr agored ond cadarnhaodd y staff fod y plant yn cael digon o amser i chwarae ar yr iard ac ar gae'r ysgol.

Roedd y staff yn ymddiddori wrth ryngweithio â'r plant. Maent yn helpu'r plant i reoli eu hymddygiad ac yn hybu eu hunan-barch, gan roi llawer o ganmoliaeth iddynt am wneud yn dda. Mae'r staff yn dangos esiampl dda gan eu bod yn rhyngweithio'n dda â'r plant, yn neilltuo amser iddynt, yn siarad â nhw ac yn gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei ddweud. Mae'r staff yn cefnogi chwarae a dysgu'r plant ac yn eu goruchwylio'n dda. Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant; maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig a phwyllog ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt. Mae'r staff yn annog y plant i fod yn gwrtais ac yn eu hatgoffa'n bwyllog ac yn dawel i rannu neu fod yn ofalus wrth gael ras yn eu cerbydau.

Mae'r staff yn annog y plant i ddysgu, ac maent yn diwallu eu hanghenion yn effeithiol. Mae'r staff yn holi ac yn ateb llawer o gwestiynau er mwyn datblygu sgiliau meddwl y plant, er enghraifft, ‘Do you think you can steer your bike in a straight line?’ Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Maent yn casglu gwybodaeth am y plant drwy ffurflenni cofrestru cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad, gan eu helpu i gynllunio ar gyfer eu hanghenion unigol. Er bod y staff yn defnyddio strategaethau ‘cynllunio yn y fan a'r lle’ ac yn ystyried syniadau'r plant yn dda, nid yw'r canlyniadau dysgu wedi'u cynnwys.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Yr Amgylchedd | Da |
| --- | --- |

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac na all neb ddod i mewn heb awdurdod. Er enghraifft, caiff y drysau eu cloi, cadarnhawyd pwy oeddem, a gofynnwyd i ni gwblhau'r gwiriadau trwyadl ar system yr ysgol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau diogelwch y plant ac mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau ac yn cwblhau asesiadau risg i gadw'r plant yn ddiogel.

Mae'r holl ardaloedd a ddefnyddir gan y plant yn fawr ac yn groesawgar. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi trefnu'r ystafell leiaf yn ardaloedd dysgu, megis ardaloedd chwarae rôl a chwarae byd bach, yn ogystal â chwarae adeiladu. Maent yn cynnig cyfleoedd chwarae blêr i'r plant yn neuadd yr ysgol, sy'n cynnig digon o le i'r plant ddilyn eu diddordebau eu hunain fel lliwio a gludo wrth greu eu calendrau blwyddyn newydd. Caiff y rhan fwyaf o'r teganau a'r adnoddau eu storio ar lefel isel fel y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'r staff yn arddangos samplau o waith y plant, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae neuadd yr ysgol yn cynnig gofod mawr i'r plant fwynhau cyfleoedd chwarae corfforol â beiciau a cherbydau eistedd a reidio yn ogystal â pheli. Mae'r lleoliad yn rhannu adnoddau â'r ysgol ac mae'r plant yn cael defnyddio'r iard a'r cae mawr sy'n cynnwys digon o adnoddau naturiol ac ardaloedd diddorol i chwarae a dysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth o deganau ac adnoddau sydd mewn cyflwr da ac yn addas ar gyfer oedrannau'r plant. Maent yn cynnwys dodrefn addas, fel byrddau i'r plant greu crefftau'r Nadolig arnynt neu fatiau cyfforddus ar y llawr ar gyfer gweithgareddau byd bach. Mae deunyddiau naturiol ac wedi'u hailgylchu ar gael, sy'n ysgogi chwilfrydedd y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn codi ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas ac maent yn dysgu am y gymdeithas ehangach drwy deganau, gemau a straeon.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus ac yn brofiadol o ran arferion gofal plant. Maent yn sicrhau bod y rhieni'n rhoi digon o wybodaeth am eu plentyn. Mae hyn yn sicrhau y caiff gofal o ansawdd da ei roi gan y staff a rheolwyr proffesiynol.  Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth ofynnol, sy'n golygu y gall rhieni wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r lleoliad yn diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu plentyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn awyddus i sicrhau eu bod yn datblygu ac yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt ac, o ganlyniad, maent yn ceisio adborth yn rheolaidd. Mae gwrando ar y plant yn flaenoriaeth i'r staff, yn ogystal â siarad â nhw ac arsylwi ar ba adnoddau y maent yn eu ffafrio.  Yn dilyn yr arolygiad, cawsom gadarnhad ysgrifenedig eu bod wedi rhoi'r argymhellion ar waith.  Mae hyn yn dangos y cyflymder y mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithredu i wella'r canlyniadau ar gyfer y plant ac i adlewyrchu ymarfer da.

Mae'r broses o recriwtio staff yn dda a chaiff y wybodaeth ei chadw mewn ffeiliau. Mae gwiriadau ar waith i ddangos bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae'r arfarniadau'n cynnwys hyfforddiant a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol. Dywedodd y staff eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o redeg y gwasanaeth. Roeddent yn gweithio'n dda fel tîm ac roedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac defnyddio eu menter i arwain y plant yn briodol.  O ganlyniad i hyn, mae'r plant wrth eu bodd â'r gofal a ddarperir gan staff digynnwrf a brwdfrydig.  Mae'r staff yn siarad yn hamddenol â'r rhieni a'r gofalwyr sy'n casglu eu plant o'r lleoliad.

Mae'r cydberthnasau â'r rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill yn gadarnhaol ac yn cyfrannu at lesiant y plant. Mae dulliau cyfathrebu effeithiol ar waith rhwng y bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r rhieni, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd y bartneriaeth â'r rhieni iddynt. Gall y rhieni siarad â'r staff am ofal eu plentyn pan fyddant yn ei gasglu, a gwelsom dystiolaeth o wybodaeth a oedd yn nodi anghenion penodol y plant.  Mae cydberthnasau agos rhwng yr ysgol a'r athrawon, sy'n galluogi'r plant i gael gofal cyson, a thrwy rannu adnoddau awyr agored mae'r plant yn cael cyfleoedd da i chwarae a dysgu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Sicrhau bod y cynlluniau'n cynnwys canlyniadau ar gyfer dysgu'r plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

oddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi